# Bod yn GREADIGOL ym myd NATUR

## GYDA CHOEDWIGOEDD A CHOED

### Pecyn Cystadleuaeth Ysgolion



# Y Tu Mewn


2 Helô a Chroeso

3 Cymryd Rhan yn ein Cystadlaethau

4 Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a Deilliannau Dysgu

5 Cystadleuaeth 1 – Her Geiriau a Lluniau Coetiroedd

8 Cystadleuaeth 2 – Archwilio Safbwyntiau Gwahanol

11 Cystadlu yn ein Cystadlaethau

12 Cyfleoedd Dysgu'r Dyfodol

14 Telerau ac Amodau

15 Taflen Weithgaredd – Her Geiriau a Lluniau Coetiroedd

16 Taflen Weithgaredd – Archwilio Safbwyntiau Gwahanol

# Helô...

## Croeso i'n *Pecyn Cystadleuaeth Ysgolion* Bod yn Greadigol ym Myd Natur gyda Choedwigoedd a Choed

Coed Cadw yw elusen gwarchod coedwigoedd fwyaf y DU, a'n gweledigaeth ni yw byd lle mae coedwigoedd a choed yn ffynnu er budd pobl a byd natur. Rydym ni wrth ein boddau ein bod yn gweithio gyda'r Urdd i gynnig cyfle cyffrous i chi a'ch disgyblion Cyfnod Allweddol 2 gymryd rhan yn ein cystadlaethau hwyl lle gallant ymgysylltu â'r byd awyr agored, gan ddefnyddio eu sgiliau i archwilio byd natur a mwynhau amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru.

***Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth bydd ei hangen arnoch i gymryd rhan yn ein cystadlaethau cyffrous ac rydym ni wrth ein boddau mai Tammie Esslemont, Aelod Cyngor Ieuenctid Coed Cadw, fydd yn beirniadu gwaith y plant eleni, ac mae hi'n edrych ymlaen at weld yr holl beth gwych sy'n cael eu creu yn eich ysgol.***

"Rwy wir yn llawn cyffro i fod yn rhan o'r gystadleuaeth bartneriaeth hon â'r Urdd eleni, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y pethau gwych bydd eich disgyblion yn eu creu!

Mae pawb yn gwybod y gall byd natur a'r awyr agored gael effeithiau cadarnhaol a gwella lles. Mae ennyn diddordeb pobl ifanc ym myd natur yn hanfodol er mwyn creu dyfodol cynaliadwy, ac yn fy marn i, bydd y gystadleuaeth hon yn hwyl ond bydd yn addysgol hefyd, gan feithrin gwerthfawrogiad dyfnach o'r amgylchedd.

Alla i ddim ag aros i weld eu holl waith, ac rwy'n sicr y bydd yn hollol wych. Byddaf yn edrych am feddwl yn greadigol a brwdfrydedd – beth am i ni ddefnyddio creadigrwydd i helpu i greu dyfodol gwyrddach!"

*Tammie Esslemont*

*Aelod o Gyngor Ieuenctid Coed Cadw*

# Cymryd Rhan yn ein Cystadlaethau

**Hoffem ni gynnig cyfle i'n disgyblion gymryd rhan drwy ddewis o ddwy gystadleuaeth gyffrous lle gallant gysylltu â'r byd awyr agored, defnyddio eu sgiliau i archwilio natur a mwynhau amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru.**

***Yn ogystal, mae gwobr i'r enillwyr sy'n dod yn 1af, yn 2il ac yn 3ydd!***

**1**

**Her Geiriau a Lluniau Coetiroedd**

**2**

**Archwilio Safbwyntiau Gwahanol**

## Mae dysgu yn yr awyr agored yn cynnig llwyth o fanteision, ac mae byd natur yn destun diddordeb di-ben-draw...

Mae'n lle gwych i bobl ifanc chwilfrydig a gall ein cystadlaethau helpu i wella sgiliau gweithio mewn tîm, datrys problemau a chyfathrebu. Gallant gynyddu hyder a hunan-barch, rhoi hwb i iechyd corfforol a meddwl, annog rhyngweithio cymdeithasol ac maent yn ffordd wych o annog cariad gydol oes at goed a natur.

Gellir cwblhau pob un o'n prosiectau awgrymedig fel rhan o'ch cwricwlwm – dyma gyfle i fynd â'ch cwricwlwm arferol bob dydd a'i ddysgu yn yr awyr agored, neu fel gweithgareddau allgyrsiol.

Y peth gwych am ddysgu yn yr awyr agored yw nad yw plant, yn aml, yn ei ystyried i fod yn 'wers' ond gallant ddysgu rhai o'u gwersi mwyaf gwerthfawr yno.

Crëwyd ein cystadlaethau i'w gwneud hi'n bosib i bob disgybl gymryd rhan – gallwch ddewis i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth 1, os oes gennych chi fynediad i ardal lle mae coedwig neu Gystadleuaeth 2, y gallwch chi ei gweud mewn unrhyw ardal werdd o'ch cwmpas.

Gallai'r ardal awyr agored rydych chi'n ei defnyddio fod yn agos iawn i'r ysgol ac o fewn pellter cerdded – gallai fod yn diroedd yr ysgol, parc lleol, neu goedwig gerllaw.

# Cymryd Rhan yn ein Cystadlaethau

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a Chyfleoedd Dysgu

Mae ein cystadlaethau'n cynnig cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chwe maes dysgu a phrofiad:

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

**Iechyd a Lles**

**Y Dyniaethau**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

**Mathemateg a Rhifedd**

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Mae ein cystadlaethau hefyd yn annog pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, gan annog a chefnogi disgyblion i fod yn:

**Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**

**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**

**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**

**Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**

## Deilliannau dysgu:

- Cynllunio, trefnu a bod yn greadigol er mwyn dangos diddordeb yn y byd o'u cwmpas
- Cael hwyl, archwilio a gweithio gydag eraill
- Mwynhau dysgu yn y byd go iawn



# Cystadleuaeth 1

# HER GEIRIAU A LLUNIAU COETIROEDD

COED CADW WOODLAND TRUST

Eisteddfod

# Cystadleuaeth 1

## Her Geiriau a Lluniau Coetiroedd

**Ewch â'ch dosbarth ar antur yn y goedwig gan annog eich disgyblion i gyfleu'r profiad drwy gelf, ffotograffiaeth neu ysgrifennu creadigol – nhw sy'n dewis!**







# Cystadleuaeth 1

## Her Geiriau a Lluniau Coetiroedd

**Anogwch eich myfyrwyr i feddwl am sut mae'r goedwig yn gwneud iddynt deimlo.**

Gall eich disgyblion fynegi eu syniadau a'u teimladau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

**Dyma ambell syniad i danio eu dychymyg:**

Pa synau, golygfeydd ac aroglau gwnaethon nhw eu profi?

Beth oedd eu disgwyliad amdani?

Beth oedd eu hoff ran?



Creu darn o gelf awyr agored gan ddefnyddio eitemau naturiol gellir eu canfod yn y goedwig.

Cofnodi eu profiadau ar ffurf sain neu fideo.

Darlunio neu baentio llun o'r goedwig.

Ysgrifennu cerdd am y golygfeydd, y synau a'r aroglau gwahanol.

Cymryd ffotograffau o'u hoff rannau o'r goedwig ac ysgrifennu capsiynau am bob un.

## Cystadleuaeth 2

# ARCHWILIO SAFBWYNTIAU GWAHANOL

COED CADW WOODLAND TRUST

Eisteddfod

# Cystadleuaeth 2

## Archwilio Safbwyntiau Gwahanol

Anogwch eich disgyblion i edrych ar y byd naturiol o wahanol bersbectifau.

Ewch i ymweld â choedwig, coeden neu fan gwyrdd a herio eich disgyblion i'w harchwilio o fwy nag un safbwynt.

Sut olwg fyddai ar goeden o safbwynt aderyn?

Neu o safbwynt trychfil?

Mae'r gweithgaredd hwn yn ffordd wych o addysgu persbectif i blant.

Anogwch eich disgyblion i gofnodi eu profiadau drwy ffotograffiaeth.



# Archwilio Safbwyntiau Gwahanol

**Mae'r gweithgaredd yn cyflwyno persbectif i blant a'r syniad ein bod ni'n ystyried pethau mewn un ffordd yn unig yn aml iawn. Y nod yw galluogi plant i ystyried pethau o safbwynt gwahanol a dangos hyn drwy ffotograffiaeth.**

Cyn yr ymweliad, efallai y byddwch chi am siarad â'ch disgyblion am sut y gallai pobl neu anifeiliaid weld y goedwig yn wahanol.

***Er enghraifft, bydd safbwynt aderyn o'r goedwig yn wahanol iawn i un draenog.***

Gellid gwneud rhai awgrymiadau i'r plant o ran ble gallant ddechrau, a gallant gymryd lluniau o'r canlynol:

- O dan ddail fel y gallai trychfilod eu gweld
- Planhigion neu rannau o'r goeden rydym ni'n eu gweld ar lefel y llygaid
- Manylion ar flodyn fel y gallai gwenynen neu löyn byw eu gweld
- Mannau cuddio neu ganfod bwyd fel y gallai anifail eu gweld
- Camfa, wal neu ffens o uwchben fel y gallai aderyn neu wiwer eu gweld yn edrych i lawr o goeden

**Os oes lle, gallai'r plant orwedd i lawr ar y llawr (ar fagiau bin) a chymryd lluniau o'r canopi o islaw**

**Chwiliwch am batrymau neu raen sy'n ddiddorol, e.e. cymesuredd glöyn byw neu raen cen ar goeden.**

# Cystadlu yn ein Cystadlaethau

Mae ein cystadlaethau'n agor ar 1 Chwefror 2024. Gall disgyblion wneud y naill gystadleuaeth neu'r llall, neu wneud y ddwy.

Mae ein cystadlaethau'n dod i ben ar 30 Ebrill 2024.

Pan fydd eich disgyblion wedi cwblhau eu prosiectau, e-bostiwch nhw erbyn 30 Ebrill 2024 i: cystadleuaethcoedcadw@urdd.org

Gallwch anfon ffeiliau gwreiddiol os ydych chi wedi gweithio gyda ffotograffiaeth, sain neu fideo.

Fel arall, sganiwch neu cymerwch lun o gelfwaith y disgyblion a'u hanfon atom yn: cystadleuaethcoedcadw@urdd.org

Sicrhewch fod maint eich ffeil yn llai na 15MB. Os byddwch chi'n profi unrhyw broblemau yn anfon eich gwaith atom, cysylltwch yn: cystadleuaethcoedcadw@urdd.org

Caiff cystadlaethau eu beirniadu gan ein panel Coedwigoedd a Choed gan gynnwys Tammie Esslemont, a chaiff yr enillwyr eu cyhoeddi yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn yr Arddorfa.

# Cyfleoedd Dysgu'r Dyfodol

**Os gwnaethoch chi a'ch disgyblion fwynhau cymryd rhan yn ein cystadlaethau, beth am gael rhagor o wybodaeth am waith Coed Cadw gydag ysgolion, a sut gallwch chi ysbrydoli disgyblion gyda phrosiectau hwyl ac ymarferol a fydd yn cyfoethogi'r hyn maent yn ei ddysgu am yr amgylchedd, coed a bywyd gwyllt.**





## Gwobr Ysgolion y Goeden Werdd

Ymunwch â mwy na 14,000 o ysgolion sy'n cymryd camau i helpu'r amgylchedd. Drwy ein gwobr, gall eich ysgol chi gymryd rhan mewn prosiectau hwyl ac ymarferol wrth helpu'r amgylchedd a gwella eich tiroedd. Mae'n rhad ac am ddim ac rydym yn darparu adnoddau a chymorth i'ch helpu chi i elwa i'r eithaf o'r prosiect.

Gall eich disgyblion hefyd ennill tystysgrifau i gydnabod yr hyn maent yn ei gyflawni a phlac arbennig i'w arddangos yn eich ysgol.

**Rhagor o wybodaeth yn:**

www.woodlandtrust.org.uk/award

**"Mae'r Wobr Ysgolion y Goeden Werdd wedi ein helpu i wneud mwy o ddysgu yn yr awyr agored, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles ein disgyblion."**

*Anne*
*Athrawes ysgol gynradd*

# Cyfleoedd Dysgu'r Dyfodol

## Plannwch Goed am Ddim gyda'ch Ysgol

Mae plannu coed yn ffordd ymarferol i blant gael effaith go iawn ar yr amgylchedd.

- Tyfu ystafell ddosbarth yn yr awyr agored.
- Creu cartrefi i fywyd gwyllt.
- Brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Pan fydd eich disgyblion yn plannu coed, byddant yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'ch ysgol gyfan a'r gymuned ehangach hefyd.

***Rydym ni eisoes wedi helpu ysgolion i blannu pum miliwn o goed ledled y DU. Beth am gael gwybod sut gallwch chi gymryd rhan?***

**Rhagor o wybodaeth yn:**

www.woodlandtrust.org.uk/freetrees



## Adnoddau a Gweithgareddau

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau am ddim i'ch helpu i gyflwyno gwersi diddorol a chofiadwy yn yr awyr agored.

Gyda sêl bendith athrawon, maent yn cynnwys adnoddau plannu coed, gweithgareddau Ditectifs Natur a llawer mwy.

**Rhagor o wybodaeth yn:**

www.treetoolsforschools.org.uk

**"Dyma'r hwyl orau dw i erioed wedi'i chael!"**

*James*
*8 oed*

# Telerau ac Amodau

## Darllenwch ein Telerau ac Amodau

Mae'r cystadlaethau ar agor i'r holl ddisgyblion CA2 ledled Cymru.

Bydd ysgolion yn gyfrifol am ddefnyddio eu hoffer eu hunain ar gyfer creu eu cynigion ar gyfer y gystadleuaeth.

Rydym yn cynnal digwyddiad ysgolion 'dim olion' o gwbl ar yr amgylchedd. Sicrhewch fod yr holl offer a deunyddiau'n cael eu tynnu o'r ardal awyr agored.

### Sut rydym ni'n defnyddio dyfyniadau a lluniau

Rydym ni'n hoffi defnyddio sylwadau a lluniau o ysgolion i ysbrydoli athrawon a phobl ifanc eraill am ddysgu yn yr awyr agored. Gyda'ch caniatâd chi, gallant gael eu dangos yn ein deunyddiau ar gyfer y gwobrau, y wefan, datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am sut rydym ni'n defnyddio ac yn gofalu am eich gwybodaeth bersonol yn ein polisi preifatrwydd.

### Caniatâd

Efallai y byddwn ni'n defnyddio eich cynigion cystadleuaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd. Os nad ydych chi am i ni ddefnyddio eich cynigion cystadleuaeth yn unrhyw un o'n deunyddiau hyrwyddo, rhowch wybod i ni pan fyddwch chi'n eu hanfon atom.



Taflen Weithgaredd
1

COED CADW WOODLAND TRUST

Eisteddfod

Bod yn GREADIGOL ym myd NATUR
GYDA CHOEDWIGOEDD A CHOED

# Her Geiriau a Lluniau Coetiroedd

**Ewch ar antur yn y goedwig a mwynhau cyfleu eich profiad drwy gelf, ffotograffiaeth neu ysgrifennu creadigol!**

Meddyliwch am sut mae'r goedwig yn gwneud i chi deimlo

Pa synau, golygfeydd ac aroglau sydd?

→ Gallwch ddarlunio neu baentio llun neu greu darn o gelf awyr agored yn defnyddio eitemau naturiol y gellir eu canfod yn y goedwig.

→ Recordiwch fideo neu gymryd ffotograffau ac ysgrifennu capsiynau am bob un.

→ Ysgrifennwch gerdd neu adolygiad o'ch antur yn y goedwig.







Taflen Weithgaredd
**2**

COED CADW WOODLAND TRUST

Eisteddfod

Bod yn GREADIGOL ym myd NATUR
GYDA CHOEDWIGOEDD A CHOED

# Archwilio Safbwyntiau Gwahanol

**Edrychwch ar y byd naturiol o bersbectif gwahanol. Ewch i goedwig neu fan gwyrdd gyda llawer o goed, neu hyd yn oed un goeden, a cheisio ei harchwilio o sawl persbectif – byddwch yn rhyfeddu ar yr hyn gallwch chi ei weld!**



## Ewch yn agos

Defnyddiwch chwyddwydr i astudio mwsogl, rhisgl coeden neu ddeilen. Os oes gan eich camera osodiad macro, defnyddiwch hwnnw i gymryd llun agos. ***A oes manylion bychain yn dod i'r amlwg yn sydyn?***



## Edrych drwy lygaid trychfil

Gorweddwch ar y llawr i weld sut olwg sydd ar y byd i chwilen neu falwoden. Edrychwch drwy'r darnau o laswellt ac o amgylch coesau blodau. ***Sylwoch chi ar unrhyw beth nad oeddech chi wedi'i weld o'r blaen?***



## O lygad aderyn

Dringwch i fan uwch a dychmygu eich bod chi'n aderyn yn hedfan yn uchel yn yr awyr. Edrychwch i lawr. Beth allwch chi ei weld? ***Sut mae pethau'n edrych yn wahanol o bersbectif uwch?***



## O islaw

Ydych chi erioed wedi edrych ar ochr is deilen neu flodyn? Rhowch gynnig arni! ***Sut mae'n wahanol i'r ochr rydych chi fel arfer yn ei gweld?***

**Cofnodwch eich profiadau drwy ffotograffiaeth.**

## Yn Eisteddfod yr Urdd

**Eleni, cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2024 ym Maldwyn (Sir Drefaldwyn) a bydd Coed Cadw, Ymddiriedolaeth y Goedwig yng Nghymru yno hefyd.**

**Gallwch ddod o hyd i ni yn yr Arddorfa – yr ardd wyllt sy'n eco-gyfeillgar yn ystod wythnos yr ŵyl.**

**Beth am alw heibio a chael gwybod rhagor am sut y gall eich ysgol a'ch disgyblion chi fod yn rhan o'n prosiectau ac elwa o'r adnoddau gwych sydd gennym ni i'w cynnig.**

**Byddem ni wrth ein boddau yn eich gweld!**

COED CADW WOODLAND TRUST

Eisteddfod

**© Coed Cadw | The Woodland Trust | Urdd 2024**